# Pwyllgor Menter a Dysgu

**EL(3) 08-08 (p5) :  12 Mawrth 2008**

## Cynnydd ar weithredu argymhellion adroddiad y Pwyllgor ar Ariannu Ysgolion ynghylch trefniadau Ariannu Ysgolion yng Nghymru

### Diben

1. Mae'r papur hwn yn rhoi tystiolaeth ysgrifenedig ar y cynnydd i weithredu argymhellion y Pwyllgor Ariannu Ysgolion a dderbyniwyd gan Lywodraeth y Cynulliad fel yr oedd ar y pryd ym Medi 2006.

### Amseru

2. Darperir y papur ar gyfer sesiwn y Pwyllgor ar 12 Mawrth 2008.

### Cefndir

3. Jane Davidson AC, y cyn Weinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, a luniodd ymateb ysgrifenedig Llywodraeth y Cynulliad fel yr oedd ar y pryd, i adroddiad y Pwyllgor Ariannu Ysgolion mewn Datganiad Cabinet Ysgrifenedig ar 19 Medi 2006.

4. Darperais i dystiolaeth ysgrifenedig i sesiwn y Pwyllgor ar 21 Tachwedd 2007 yn rhoi'r newyddion diweddaraf am y cynnydd ar weithredu pob un o'r 23 (o blith 27) argymhelliad a dderbyniwyd gan Lywodraeth y Cynulliad fel yr oedd ar y pryd.

5. Mae'r papur hwn yn cynnig tystiolaeth ychwanegol ar y materion cyffredin a nodwyd ym mhapur y Pwyllgor yn dadansoddi ymatebion i'w ymgynghoriad â rhanddeiliaid. Lle bo hynny'n berthnasol mae hefyd yn amlygu cynnydd pellach i weithredu argymhellion penodol ers 21 Tachwedd.

### Tryloywder y broses ariannu

6. Rydym wedi cymryd camau bras dros y blynyddoedd diwethaf i wneud y trefniadau ariannu llywodraeth leol yn fwy agored a thryloyw gyda golwg ar addysg, gan gynnwys ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sefydlu fforymau ysgol i hyrwyddo trafodaethau gwybodus gyda'u hysgolion ar faterion ariannu, ac ers 2004, trwy gyhoeddi manylion Asesiadau wedi'u Seilio ar Ddangosyddion Addysg a gwasanaethau eraill o fewn y setliad llywodraeth leol. Byddwn yn parhau i weithio gyda llywodraeth leol i wella ansawdd ac ystod yr wybodaeth sydd ar gael am y broses ariannu ysgolion ac i'w gwneud mor hygyrch â phosibl (gweler isod ar fynediad at wybodaeth).

7. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cyhoeddi adroddiadau ystadegol ar gyllidebau addysg awdurdodau lleol a osodwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol, yn seiliedig ar y dychweliadau sy'n ofynnol gan awdurdodau lleol o dan adran 52 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 - mae Cyfarwyddiaeth Ystadegol Llywodraeth y Cynulliad yn gwirio'r data gydag awdurdodau lleol cyn cyhoeddi. Adolygwyd y ffurflenni a'r canllawiau adran 52 y llynedd. Rwy'n fodlon fod yr wybodaeth a gyhoeddir mor gyson ag y gall fod.

8. Bu'r Pwyllgor Ariannu Ysgolion yn edrych ar y pryderon cysylltiedig â  dosbarthu'r setliad llywodraeth leol ar sail costau darparu gwasanaethau addysg yn y gorffennol. Roedd canlyniadau adolygiad yr Athro Bramley o Brifysgol Heriot Watt o'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i ddosbarthu adnoddau ar gyfer addysg yn y setliad, a gyhoeddwyd fis Tachwedd diwethaf, yn cyflwyno methodoleg wahanol oedd yn canolbwyntio ar y canlyniadau.  Roedd yn archwilio'r cysylltiad rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad disgyblion. Byddwn yn mynd ati i astudio canfyddiadau'r astudiaeth yn fwy manwl yn ystod y misoedd sydd i ddod trwy Is-Grŵp Dosbarthu'r Fforwm Ymgynghorol ar Gyllid. Bydd swyddogion addysg ac ymarferwyr eraill yn ymwneud yn llawn â'r gwaith hwnnw.

### Mynediad at wybodaeth gan gynnwys darparu gwybodaeth ar y we

9. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod fod angen gwell gwybodaeth am y broses ariannu er mwyn gwella tryloywder, ac rydym yn gweithio i gyflenwi hynny.

10. Mae ystod o wybodaeth ar gael yn barod ar lefel awdurdod lleol yn sgil y gofynion statudol ar awdurdodau, fel y dychweliadau adran 52 y cyfeiriwyd atynt uchod. Rhaid i awdurdodau hefyd gyhoeddi eu cynllun ar gyfer ariannu ysgolion, eu fformiwla ariannu lleol a chofnodion cyfarfodydd fforymau ysgolion.

11. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cyhoeddi manylion y setliad llywodraeth leol bob blwyddyn ac, fel y nodwyd uchod, data ystadegol hefyd ar gyllidebau ac alldro addysg ac ysgolion awdurdodau lleol.  Er hynny rydym yn cydnabod fod angen gwella hygyrchedd a byddwn yn cadw sylwadau rhanddeiliaid mewn ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor ar wybodaeth ar-lein mewn cof.

12. Mae adran ariannu ysgolion yn cael ei datblygu ar wefan Llywodraeth y Cynulliad, gan gynnwys cyfeiriad e-bost arbennig ar gyfer ymholiadau ariannu ysgolion, i ddarparu gwybodaeth hygyrch i awdurdodau lleol, athrawon a rhieni. Byddwn yn cadw golwg ar y cynnwys trwy fonitro ac adborth.

### Cyllidebau tair blynedd i ysgolion

13. Rydym am gyflwyno cyllidebau 3 blynedd i ysgolion o 2008-09. Ymhlith yr ystyriaethau allweddol bu'r angen i fod yn sicr fod ein cynigion yn ymarferol, fod gan randdeiliaid ffydd ynddynt ac y byddant o gymorth i ysgolion gael eu cynlluniau ariannol a chwricwlwm i gydredeg yn well yn yr hirdymor.

14. Ar y dechrau byddwn yn cyflwyno cyllidebau tair blynedd ar sail wirfoddol i sicrhau fod y trefniadau ymarferol yn ddichonadwy gan symud ymlaen at ddatrysiad rheoleiddio wedyn. Mae swyddogion wedi cysylltu gyda llywodraeth leol sydd wedi mynegi cefnogaeth i'r dull hwn o weithredu.   Byddwn yn ysgrifennu'n ffurfiol at awdurdodau lleol cyn bo hir gan amlinellu'r manylion.

### Ariannu ychwanegol

15. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn defnyddio arian grant penodol yn unig pan ydym o'r farn mai dyma'r dull mwyaf effeithiol o ddatblygu mentrau neu flaenoriaethau polisi arbennig.  Mae ysgolion yn derbyn y dewis mwyaf o'u harian trwy'r setliad llywodraeth leol, sy'n golygu fod ganddynt y dewis mfwyaf posib ynglŷn â sut i ddefnyddio cyllidebau i gwrdd â'u hanghenion a'u blaenoriaethau eu hunain.

16. O dan ein protocol grant gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru rydym yn ymgynghori gyda hwy ynglŷn â dosbarthu grantiau ac yn ceisio sicrhau ein bod yn rhoi rhybudd priodol i awdurdodau am amseriad a maint arian grant.  Rydym wedi datblygu'r protocol er mwyn sicrhau fod yr holl grantiau sydd wedi'u neilltuo'n cydredeg ag egwyddorion setliadau 3-blynedd llywodraeth leol o 2008-09 er mwyn gwella cynllunio strategol ac ariannol llywodraeth leol.

17. Rydym yn ceisio osgoi diwylliant o fidio gan ein bod yn cydnabod y baich ychwanegol y mae hyn yn ei roi ar awdurdodau lleol ac ysgolion.  Ar lefel awdurdod, mae'n bosib y bydd angen dull o ddosbarthu arian grant i ysgolion unigol (os nad yw hyn wedi ei bennu ymlaen llaw yn ganolog neu'n cael ei wneud gan ddefnyddio'r fformiwla ariannu lleol) ac mae'n bosib y gallai hynny olygu ysgolion yn gwneud cais am arian. Lle  bo hynny'n angenrheidiol rydym yn disgwyl i awdurdodau fynd ati i wneud hyn gyda 'chyffyrddiad ysgafn'.

18. Rydym yn ceisio sicrhau strategaeth ymadael briodol gyda phob grantiau fel nad yw ysgolion nac awdurdodau lleol yn cael unrhyw syndod annisgwyl.  Os oes angen grant ar sail barhaol bydd y grant fel rheol yn cael ei drosglwyddo i'r Grantiau Cymorth Refeniw ar ddiwedd y cyfnod y grant, sef tair blynedd fel arfer.  Lle bo'r arian dros gyfnod byr yn unig, er enghraifft i gynyddu gallu neu i ysgogi menter arbennig, byddwn yn datgan hyn ar y dechrau. Rydym yn disgwyl y bydd gweithgareddau a hyrwyddir fel hyn yn cael eu cynnal drwy gyllidebau prif ffrwd i ysgolion.

### Fforymau Cyllideb Ysgolion

19. Rwy'n falch fod y mwyafrif o ymatebwyr yn cefnogi'r egwyddor o fforymau cyllideb ysgolion ac yn credu eu bod yn gweithio'n dda.  Mae fforymau cyllideb wedi bod yn gweithredu ers ychydig dros bedair blynedd yng Nghymru ac rydym yn ymrwymedig i adolygu eu heffeithiolrwydd, gan gynnwys aelodaeth. Bydd yr adolygiad yn ystyried hefyd pa mor ddefnyddiol i fforymau yw'r wybodaeth y maen nhw'n ei derbyn gan awdurdodau lleol yn egluro cynigion a phenderfyniadau cyllidebau ysgolion. Yn sgil canlyniad yr adolygiad byddwn yn ystyried a oes angen unrhyw newidiadau i Reoliadau Fforymau Ysgolion (Cymru) cyfredol 2003.

### Buddsoddi mewn adeiladau ysgol

20. Mae Cymru'n Un yn ein hymrwymo i ddarparu mwy o arian yn ystod oes y Cynulliad hwn. Bydd yr arian yn cynyddu i £673.972m yn sgil y cynnydd yn y gyllideb ar gyfer 2008-09 ymlaen. Yn ychwanegol at hyn, darperir  £34.093m hefyd ar gyfer y ddau gynllun Menter Cyllid Preifat a fydd yn dod yn rhan o'r ffrwd gan wneud cyfanswm o  £708.065m.

21. Mae angen i awdurdodau lleol ddatblygu cynlluniau cadarn ar gyfer buddsoddi cyfalaf mewn ysgolion sy'n rhoi ystyriaeth i'r gostyngiad llym yn niferoedd disgyblion, a'r angen i ganolbwyntio buddsoddiad mewn ysgolion sy'n ddichonadwy, sydd â dyfodol diogel ac sy'n gallu cyflenwi addysg o ansawdd uchel yn ogystal â darparu cyfleusterau i'w defnyddio gan y gymuned.

22. Mae awdurdodau lleol yn gwario mwy na'r arian a ddarperir gan Lywodraeth y Cynulliad trwy ddefnyddio  dyraniadau arian cyfalaf cyffredinol benthyca darbodus a derbyniadau cyfalaf uwch na'r lefelau tybiannol.  Mae'r rhagolwg gwariant yn 2007-08 yn £188.4m o gymharu ag arian Llywodraeth y Cynulliad o £157m.

23. Rydym yn datblygu cysylltiadau rhwng y dyraniad arian cyfalaf ar gyfer ysgolion a chynllunio strategol effeithiol gan awdurdodau lleol sy'n adlewyrchu lefelau galw lleol am leoedd mewn ysgolion. Mae'r mecanwaith ar gyfer cyflawni hyn dan ystyriaeth a bydd yn destun trafodaethau gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.